# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 8 i 14 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

3 Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

5 Cwestiynau i'r Trefnydd

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser y mae Prif Weinidog Cymru yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15700)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

### Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw Prif Weinidog Cymru yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15777) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

### Partneriaid Arthur Anderson

**Nick Bourne:** Pa gysylltiadau, cyngor, cymorth, mantais, buddiant, nawdd neu roddion y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gan bartneriaid Arthur Anderson yn ystod ei gyfnod fel un o Weinidogion y Cynulliad? (WAQ15794)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim.

### Fferm Wynt Cefn Croes (Gallu i Ofyn am Ymchwiliad Cyhoeddus)

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch a fyddai wedi gallu gofyn am ymchwiliad cyhoeddus i ddatblygiad fferm wynt Cefn Croes? (WAQ15799)

**Prif Weinidog Cymru:** Oherwydd na chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiad gan yr awdurdod cynllunio lleol fel un o'r cyrff statudol yr ymgynghorwyd â hwy, mae'r Senedd wedi ymddiried y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r cynnig ar gyfer Cefn Croes i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach yn unig. Oherwydd ei fod yn benderfyniad sy'n effeithio ar hawliau unigolion, gan gynnwys hawliau'r ymgeiswyr a'r gwrthwynebwyr, y mae'n lled-farnwrol ei natur a rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â chanllawiau cyfreithiol caeth. Byddai peidio â gwneud hynny yn gwneud y penderfyniad yn un anghyfreithlon ac yn agored i gael ei ddileu gan y llysoedd. Penderfyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach ei wneud ydyw, ar ôl pwyso a mesur yr holl ffeithiau perthnasol a'r ystyriaethau polisi.

I gydnabod hyn, wrth ateb cais ffurfiol am sylwadau ar y cynnig gan yr Adran Diwydiant a Masnach, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad i'r penderfynydd yr holl ddeunydd y gwyddom ni amdano a oedd yn berthnasol i'r penderfyniad, heb fynegi barn ar sut y dylai'r Gweinidog benderfynu. Roedd ein llythyr, fel un o'r cyrff ymgynghori ffurfiol, yn dweud yn benodol bod yn rhaid i'r Adran Diwydiant a Masnach fodloni ei hun bod yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r achos wedi cael ei chasglu, ei harchwilio ac y rhoddir y pwys priodol arni wrth wneud y penderfyniad, ac ystyried a ellid gwneud hyn heb gynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol, o gofio mai hwn yw'r dull derbyniol o brofi a chasglu gwybodaeth mewn modd cynhwysfawr a chlir pryd bynnag y ceir mwy nag ystyriaethau lleol ymysg y materion dan sylw.

### Fferm Wynt Cefn Croes (Cyflwyno Cais am Ymchwiliad Cyhoeddus)

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru yn awr wneud cais i'r Adran Masnach a Diwydiant am ymchwiliad cyhoeddus llawn i ddatblygiad fferm wynt Cefn Croes? (WAQ15800)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes gennyf unrhyw fwriad i newid cynnwys y llythyr at yr Adran Diwydiant a Masnach, dyddiedig 26 Hydref, ynghylch y mater hwn, yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth newydd sy'n codi cwestiynau ynghylch y sail a ddefnyddiodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach i wneud ei phenderfyniad ynghylch datblygiad fferm wynt Cefn Croes.

## Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

### Gorchmynion Drafft y Cynulliad

**David Melding:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, sawl Gorchymyn drafft y Cynulliad yn 2001 y gwnaeth Prif Weinidog Cymru argymell bod y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono yn eu hystyried? (WAQ15672)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.1, caiff Gorchmynion drafft eu cyhoeddi ar y fewnrwyd er mwyn 'gwahodd sylwadau ynghylch a yw'n haeddu cael ei ystyried gan bwyllgor pwnc'. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i hyn ddigwydd 10 diwrnod cyn iddo bwyso a mesur y Gorchymyn. Tynnir sylw'r aelodau at Orchmynion newydd a gyhoeddir dan Reol Sefydlog Rhif 22.1 bob wythnos ac mae ganddynt gyswllt e-bost sy'n eu galluogi i wneud sylwadau o'r fath.

O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, bydd Gweinidog y Cynulliad 'gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd yn argymell a ddylai'r drafft gael ei ystyried neu beidio gan y pwyllgor pwnc'. Yn 2001, ni dderbyniodd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet unrhyw sylwadau yn sgîl cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1. Yn ymarferol, mae'r Aelodau yn hysbysu eu rheolwyr busnes bod rheswm da dros roi ystyriaeth hwy i Orchymyn penodol mewn Pwyllgor Pwnc ac mae'r Dirprwy Lywydd yn gwneud ei benderfyniad ar ôl i'r Pwyllgor Busnes drafod y Gorchymyn. Yng ngoleuni'r ymarfer a ddatblygodd ers 1999, nid oedd unrhyw femorandwm esboniadol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Busnes yn 2001 yn argymell y dylai Pwyllgor Pwnc ystyried unrhyw Orchymyn.

Er hynny, mae mesurau ar y gweill i mi hysbysu'r Pwyllgor Datblygu Economaidd o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law sy'n cwympo oddi mewn i'w gylch cyfrifoldeb yn ystod yr adroddiad a gyflwynaf gerbron y Pwyllgor bob pythefnos. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor nodi'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law y byddai'n hoffi eu hystyried yn fanwl cyn iddynt fynd gerbron y Pwyllgor Busnes.

### Materion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser y mae Prif Weinidog Cymru yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15707)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

### Cysylltiadau Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw Prif Weinidog Cymru yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei adran a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15792) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

**Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen**

**Nick Bourne:** A yw Prif Weinidog Cymru yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15793)

**Prif Weinidog Cymru:** Ni chafodd Bwrdd Croeso Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture er sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ni chafodd Awdurdod Datblygu Cymru unrhyw drafodion busnes uniongyrchol gydag Arthur Andersen nac Accenture. Ni all yr awdurdod ddatgan eto a fu unrhyw gysylltiad anuniongyrchol. Rhoddaf ateb pellach ar gyfer y pwynt hwn cyn gynted â phosib.

**Fferm Wynt Cefn Croes (Ymateb Ffurfiol)**

**Ron Davies:** Ar ba ddyddiad wnaeth Prif Weinidog Cymru ymateb yn ffurfiol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch cais fferm wynt Cefn Croes? (WAQ15817)

**Prif Weinidog Cymru:** Anfonwyd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adran Diwydiant a Masnach ar 26 Hydref 2001 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ar yr un diwrnod. Mae'r ymateb ar gael ar y cyfeiriad canlynol:

**http://www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/response-e.htm.**

**Rhaglen INTERREG**

**Gwenda Thomas:** Beth fydd y dyraniad o £40 miliwn, o dan raglen INTERREG Cymru/Iwerddon ar y cyd, yn ei olygu i Gymru? (WAQ15852)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd rhaglen INTERREG IIIA Cymru/Iwerddon, a lansiwyd gennyf gyda'r Taoiseach ar 11 Chwefror, yn hybu'r datblygiad cynaliadwy yng ngorllewin Cymru a dwyrain Iwerddon. Mae'r rhaglen ar y cyd yn cynnig cyfle ymarferol a gwerthfawr i ddatblygu ein cysylltiadau gyda Iwerddon ymhellach ac adeiladu ar lwyddiant y rhaglen flaenorol INTERREG II. Bydd yn rhoi hwb i gymunedau yng ngorllewin Cymru, gan gyfannu rhaglen Amcan 1, rhaglen sydd bellach yn gwneud cynnydd.

Mae'r rhaglen yn cefnogi datblygu busnes a menter, datblygu gwledig, datblygu adnoddau'r gweithlu, cysylltiadau ym maes technoleg a thrafnidiaeth, datblygu morol ac arfordirol a diwylliant, treftadaeth a thwristiaeth. Mae'n cynnwys y cyfnod hyd at ddiwedd 2006, ac mae cyfanswm y gyllideb dros £40 miliwn.

Mae Cymru hefyd yn gymwys am nawdd dan gainc B INTERREG III, rhaglen a anelir at gydweithredu rhyngwladol ynghylch datblygu a chynllunio gofodol rhwng awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ledled tiriogaeth Ewrop. Bwriedir y rhaglenni perthnasol ar gyfer ardal gogledd-orllewin Ewrop a'r Iwerydd.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser y mae'r Gweinidog yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15705)

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

### Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei adran a grŵp cwmnïau Arthur Anderson, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15780) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

### Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15781)

**Andrew Davies:** Nid wyf yn gyfrifol am unrhyw gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Gorchmynion Drafft y Cynulliad

**David Melding:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, sawl Gorchymyn drafft y Cynulliad yn 2001 y gwnaeth y Gweinidog argymell bod y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono yn eu hystyried? (WAQ15671)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.1, caiff Gorchmynion drafft eu cyhoeddi ar y fewnrwyd er mwyn 'gwahodd sylwadau ynghylch a yw'n haeddu cael ei ystyried gan bwyllgor pwnc.' Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i hyn ddigwydd 10 diwrnod cyn iddo bwyso a mesur y Gorchymyn. Tynnir sylw'r aelodau at Orchmynion newydd a gyhoeddir o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1 bob wythnos ac mae ganddynt gyswllt e-bost sy'n eu galluogi i wneud sylwadau o'r fath.

O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, bydd Gweinidog y Cynulliad 'gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd yn argymell a ddylai'r drafft gael ei ystyried neu beidio gan y pwyllgor pwnc'. Yn 2001, ni dderbyniodd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet unrhyw sylwadau yn sgîl cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1. Yn ymarferol, mae'r Aelodau yn hysbysu eu rheolwyr busnes bod rheswm da dros roi ystyriaeth hwy i Orchymyn penodol mewn Pwyllgor Pwnc ac mae'r Dirprwy Lywydd yn gwneud ei benderfyniad ar ôl i'r Pwyllgor Busnes drafod y Gorchymyn. Yng ngoleuni'r ymarfer a ddatblygodd ers 1999, nid oedd unrhyw femorandwm esboniadol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Busnes yn 2001 yn argymell y dylai Pwyllgor Pwnc ystyried unrhyw Orchymyn.

Er hynny, mae mesurau ar y gweill i mi, yn achlysurol, hysbysu'r Pwyllgor Diwylliant o ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ystod y chwe mis nesaf sy'n cwympo oddi mewn i'w gylch gorchwyl yn ystod fy adroddiad misol gerbron y Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor nodi'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law y byddai'n hoffi eu hystyried yn fanwl cyn iddynt fynd gerbron y Pwyllgor Busnes.

### Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser mae'r Gweinidog yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15704)

**Jenny Randerson:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

### Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei hadran a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15790) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

### Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae hi'n gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15791)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn gyfrifol am Gyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Nid oes yr un o'r rhain wedi cael trafodion busnes gydag Arthur Andersen ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Datblygu Rygbi

**Rod Richards:** Pa fesurau sydd ar gael i'r Gweinidog er mwyn cynorthwyo wrth ddatblygu rygbi yng Nghymru, ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater? (WAQ15808)

**Jenny Randerson:** Sianelir arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, a'r corff hwn sy'n penderfynu ar ddyrannu'r arian sydd ar gael ar sail anghenion ariannol a'r blaenoriaethau rhwng y gwahanol gyrff llywodraethu chwaraeon.

Mae'r Cyngor Chwaraeon yn cynorthwyo wrth ddatblygu rygbi yng Nghymru drwy gyfrwng nifer o wahanol gynlluniau, megis arian loteri, Cist Gymunedol a *Sportsmatch*. Mae hefyd yn cyd-ariannu, gydag Undeb Rygbi Cymru, gynghorydd addysg a gyrfaoedd ym maes athletau, sy'n ymgorffori hyfforddiant rheoli ffyrdd o fyw.

Rhoddir cefnogaeth ariannol hefyd i ddatblygu rygbi merched Cymru yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Gorchmynion Drafft y Cynulliad

**David Melding:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, sawl Gorchymyn drafft y Cynulliad yn 2001 y gwnaeth y Gweinidog argymell bod y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono yn eu hystyried? (WAQ15667)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.1, caiff Gorchmynion drafft eu cyhoeddi ar y fewnrwyd er mwyn 'gwahodd sylwadau ynghylch a yw'n haeddu cael ei ystyried gan bwyllgor pwnc.' Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i hyn ddigwydd 10 diwrnod cyn iddo bwyso a mesur y Gorchymyn. Tynnir sylw Aelodau at Orchmynion newydd a gyhoeddir o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1 bob wythnos ac mae ganddynt gyswllt e-bost sy'n eu galluogi i wneud sylwadau o'r fath.

O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, bydd Gweinidog y Cynulliad 'gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd yn argymell a ddylai'r drafft gael ei ystyried neu beidio gan y pwyllgor pwnc'. Yn 2001, ni dderbyniodd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet unrhyw sylwadau yn sgîl cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1. Yn ymarferol, mae'r Aelodau yn hysbysu eu rheolwyr busnes bod rheswm da dros roi ystyriaeth hwy i Orchymyn penodol mewn Pwyllgor Pwnc ac mae'r Dirprwy Lywydd yn gwneud ei benderfyniad ar ôl i'r Pwyllgor Busnes drafod y Gorchymyn. Yng ngoleuni'r ymarfer a ddatblygodd ers 1999, nid oedd unrhyw femorandwm esboniadol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Busnes yn 2001 yn argymell y dylai Pwyllgor Pwnc ystyried unrhyw Orchymyn.

Er hynny, mae mesurau ar y gweill i mi, yn achlysurol, hysbysu'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ystod y chwe mis nesaf sy'n cwympo oddi mewn i'w gylch gorchwyl yn ystod fy adroddiad misol gerbron y Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor nodi'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law y byddai'n hoffi eu hystyried yn fanwl cyn iddynt fynd gerbron y Pwyllgor Busnes.

## Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser mae'r Gweinidog yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15702)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

## Mentrau Addysg Iechyd

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio'r mentrau addysg iechyd mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ15758)

**Jane Davidson:** Cynhelir nifer o fentrau addysg iechyd mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd.

Ymhlith y rhain ceir dull gweithredu cydlynol i atal ysmygu ymysg plant tair oed hyd at bobl ifanc 18 mlwydd oed, gan gynnwys adnodd newydd i ysgolion cynradd 'Arwyddion Mwg' sy'n darparu gwersi i'w defnyddio ym maes mathemateg a iaith, a chlwb Bygiau Baco, sydd â 5,000 o aelodau, sy'n annog plant rhwng wyth ac 11 mlwydd oed yn arbennig i beidio ag ysmygu. Yn ogystal â hyn, mae dros 15,000 o bobl ifanc rhwng 11 a 13 mlwydd oed yn cymryd rhan yn ein cystadleuaeth dosbarth di-fwg. Mae ysgolion uwchradd yng Ngwynedd ac Abertawe wedi sefydlu grwpiau gweithredu peilot yn erbyn baco, a bydd astudiaethau achos ac adroddiadau cloriannu ar gael yn ystod 2002. Mae adnodd dysgu, 'Pynciau Llosg', i'w gael ym mhob ysgol uwchradd a chefnogir y mentrau hyn gan dudalennau baco ar ein gwefan 'e.ysgol.iach'.

Nod y rhaglen 'Symud y Dosbarth!' yw galluogi plant ac athrawon i ganfod pleserau symud a manteision ymlacio. Mae'n seiliedig ar galendrau gweithgareddau a cheir llawlyfrau i gyd-fynd â hwy. Ar ôl eu profi

yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd, bydd y deunyddiau hyn ar gael ar gyfer pob ysgol gynradd yn ystod 2002.

I gefnogi'r mentrau hyn, yr ydym yn annog ysgolion i weithio oddi mewn i agwedd ysgolion iach. Lansiwyd rhwydwaith o gynlluniau ysgolion iach Cymru gan Jane Hutt ym mis Medi 1999. Cyhoeddwyd fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynlluniau o'r fath i'r holl awdurdodau iechyd a'r awdurdodau addysg yng Nghymru. Mae'r fframwaith cenedlaethol yn cynnwys nodau cenedlaethol a gellir defnyddio'r rhain i lunio meini prawf lleol. Mae proses achredu ar waith a chaiff cynlluniau lleol eu hachredu fel rhan o WNHSS. Maent hwy, yn eu tro, yn achredu ysgolion eu rhwydwaith, a bydd yr ysgolion hynny yn derbyn plac swyddogol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynllun Sir Benfro oedd y cyntaf i gael ei achredu ym mis Gorffennaf 2001.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi derbyn nawdd o'r gyllideb hybu iechyd i sefydlu neu ddatblygu cynlluniau lleol ymhellach yn eu hardal o fewn partneriaeth iechyd ac addysg. Ar hyn o bryd, mae dros 250 o ysgolion yn rhan o gynlluniau lleol. Yn ystod hydref 2001, derbyniodd pob cynllun hefyd £3,000 pellach i hybu siopau ffrwythau yn yr ysgolion hynny sy'n cymryd rhan.

### Cyfranogiad mewn Chwaraeon Cystadleuol mewn Ysgolion

**David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella lefel cyfranogiad mewn chwaraeon cystadleuol yn ysgolion Cymru? (WAQ15759)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad yn cydnabod y rhan bwysig y mae chwaraeon ac addysg gorfforol yn ei chwarae mewn darparu cyfleoedd ardderchog ar gyfer meithrin sgiliau bywyd, megis gwaith tîm, arweinyddiaeth, a chyfathrebu rhyngbersonol, yn ogystal ag mewn gwella ffitrwydd corfforol plant. Am y rheswm hwnnw, yr ydym wedi sicrhau bod addysg gorfforol, gan gynnwys gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored, yn aros yn rhan annatod o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhaglen astudio ar gyfer addysg gorfforol, a gyflwynwyd o fis Medi 2000 ymlaen, yn caniatáu i'r rheini sydd am gyfranogi mewn chwaraeon cystadleuol wneud hynny, tra'n sicrhau bod y rheini na chânt eu cymell gan chwaraeon cystadleuol yn gallu cyfranogi mewn addysg gorfforol y maent yn ei mwynhau.

Er hynny, yr ydym wedi ymrwymo i wella'r modd y cyflwynir AG a chwaraeon mewn ysgolion a gwella'u heffeithiolrwydd. Yr wyf wedi rhyddhau adnoddau i Gyngor Chwaraeon Cymru er mwyn iddo gyflawni nifer o'r argymhellion allweddol a ddisgrifir yn y 'Cynllun Gweithredu i Gymru' a gyhoeddwyd gan y tasglu addysg gorfforol a chwaraeon ym mis Mehefin 2001. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwaith peilot gydag ysgolion ac amrywiaeth mawr o bartneriaid lleol i ddatblygu ymgyrchoedd arloesol i wella cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i gymryd rhan mewn AG a chwaraeon yn yr ysgol. Bydd y gwaith hwn yn cyfannu'r rhaglen gwerth £48.75 miliwn yng Nghymru yn yr ysgol a sefydlwyd gan y gronfa cyfleoedd newydd ar gyfer AG a chwaraeon. Lluniwyd rhaglen y gronfa cyfleoedd newydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru a chaiff ei hanelu ar gyfer adeiladu cyfleusterau newydd ac adnewyddu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Hefyd, bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn parhau i chwarae rôl gefnogol allweddol drwy ei gynlluniau llwyddiannus Campau'r Ddraig a Chlwb Cymru, ac i hybu ymarfer da.

Bydd y cyfleoedd ehangach a'r cyfleusterau o well safon a geir yn sgîl y gwaith hwn yn gwneud cyfraniad holl bwysig i wella ansawdd a'r dewis o gyfleoedd chwaraeon sydd ar gael i'r holl bobl ifanc yng Nghymru.

### Cardiau Prawf Oedran

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cardiau prawf oedran a'u goblygiadau i ddisgyblion Cymru? (WAQ15760)

**Jane Davidson:** Lansiwyd cynllun y cardiau prawf oedran fel consortiwm ar sail nid-er-elw yn 1999 gyda chefnogaeth gan Lywodraeth y DU, yr heddlu ac adwerthwyr i sefydlu cardiau prawf oedran a

dderbynnir yn eang ac na ellir eu ffugio, ac a fydd ar gael i unrhyw un chwech oed neu'n hŷn. Mae'r cerdyn hefyd yn cynnig talebau a disgowntiau masnachol. Mae'r cynllun yn cyd-fynd ag amrywiaeth o gynlluniau cardiau eraill sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd, megis y cerdyn ieuenctid (Cerdyn Euro <26 Canllaw Online) a cherdyn *Validate UK*.

### Uned Ddilysu Prifysgol Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith uned ddilysu Prifysgol Cymru? (WAQ15761)

**Jane Davidson:** Sefydlwyd bwrdd dilysu Prifysgol Cymru yn 1974 a chynghora'r bwrdd academaidd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â dilysu graddau ac arholiadau eraill a gynigir gan sefydliadau cysylltiedig yng Nghymru, ac mewn canolfannau dethol yn Lloegr a thramor. Cynrychiolir holl sefydliadau cysylltiedig y brifysgol ar y bwrdd.

### Strwythur Prifysgol Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strwythur Prifysgol Cymru yn y dyfodol? (WAQ15762)

**Jane Davidson:** Bu i adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o'r polisi addysg uwch yng Nghymru ystyried maint a siâp y sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys rôl Prifysgol Cymru. Argymhellodd yr adolygiad hwn y dylai'r sector a minnau wneud adolygiad beirniadol o ba mor briodol yw strwythur presennol Prifysgol Cymru. Yr wyf wrthi'n pwyso a mesur yr argymhellion a chynnwys yr adolygiad, a byddaf yn cyflwyno fy strategaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru gerbron y Cynulliad yn fuan.

### Adroddiad Rees (Gweithredu)

**Peter Black:** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwneud datganiad ar weithredu adroddiad Rees? (WAQ15763)

**Jane Davidson:** Bwriadaf wneud datganiad ar adroddiad Rees gerbron y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Chwefror 2002.

### Adroddiad Rees (Sylwadau)

**Peter Black:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn am adroddiad Rees ers ei gyhoeddi? (WAQ15764)

**Jane Davidson:** Ar ôl cyhoeddi adroddiad Rees ym mis Mehefin 2001, dywedais y byddwn yn croesawu sylwadau ac ymatebion gan sefydliadau sy'n ymwneud â'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach a chan bartïon eraill sydd â diddordeb. Yr wyf wedi derbyn sylwadau gan y ddau sector, a cheir nifer o gyfeiriadau at yr adroddiad mewn gohebiaeth gyffredinol a dderbyniais.

### Rhaglenni Adeiladu Cyfalaf yn Sir Ddinbych

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar raglenni adeiladu cyfalaf yn Sir Ddinbych? (WAQ15765)

**Jane Davidson:** O dan y fargen newydd i ysgolion a'r cynlluniau arian cyfalaf ychwanegol, derbyniodd Cyngor Sir Ddinbych dros £3.6 miliwn yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2002 fel arian cyfalaf ar gyfer addysg. O dan y grant i wella adeiladau ysgolion, y rhaglen olynol i'r fargen newydd a'r cynlluniau arian cyfalaf ychwanegol, £1.187 miliwn yw'r dyraniadau mynegol ar gyfer Sir Ddinbych yn 2002-03 a £1.390 miliwn ar gyfer 2003-04.

Hefyd, cymeradwywyd hyd at £2 filiwn o arian cyfalaf i'w wario yn Ysgol arbennig Plas Brondyffryn.

Yn ychwanegol at yr arian wedi'i bridiannu a grybwyllir uchod, mae awdurdodau yn derbyn arian cyfalaf cyffredinol ac maent yn rhydd i'w ddefnyddio at unrhyw ddibenion cyfalaf. Mae elfen addysg flynyddol yr arian hwn ar gyfer 2001-02 ac wedi hynny yn £54,939 miliwn, ac mae Sir Ddinbych yn derbyn ei chyfran o'r arian hwn ar sail fformiwla. Mae hwn yn ffurfio rhan o gyfran gyffredinol Sir Ddinbych o'r arian cyfalaf drwyddo draw.

### Ysgol ar gyfer Disgyblion sy'n dioddef o Awtistiaeth, ADHD a Chyflyrau Cysylltiedig

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda golwg ar sefydlu ysgol i wasanaethu Caerdydd a'r ardal ar gyfer disgyblion sy'n dioddef o awtistiaeth, ADHD a chyflyrau cysylltiedig? (WAQ15766)

**Jane Davidson:** Ni chefais unrhyw drafodaethau o'r fath. Mater i'r awdurdod addysg lleol, fodd bynnag, yn y lle cyntaf yw gwneud darpariaeth o'r fath ar gyfer disgyblion yn ei ardal ei hun.

### Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei adran a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15778) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

### Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae'n gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15779)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn gyfrifol am Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru. Nid oes yr un o'r rhain wedi cael trafodion busnes gydag Arthur Andersen ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Gorchmynion Drafft y Cynulliad

**David Melding:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, sawl Gorchymyn drafft y Cynulliad yn 2001 y gwnaeth y Gweinidog argymell bod y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono yn eu hystyried? (WAQ15668)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.1, caiff Gorchmynion drafft eu cyhoeddi ar y fewnrwyd er mwyn 'gwahodd sylwadau ynghylch a yw'n haeddu cael ei ystyried gan bwyllgor pwnc.' Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i hyn ddigwydd 10 diwrnod cyn iddo bwyso a mesur y Gorchymyn. Tynnir sylw'r aelodau at Orchmynion newydd a gyhoeddir o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1 bob wythnos ac mae ganddynt gyswllt e-bost sy'n eu galluogi i wneud sylwadau o'r fath.

O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, bydd Gweinidog y Cynulliad 'gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd yn argymell a ddylai'r drafft gael ei ystyried neu beidio gan y pwyllgor pwnc'. Yn 2001, ni chafodd unrhyw sylwadau, yn sgîl cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1, yn Ysgrifenyddiaeth y Cabinet. Yn ymarferol, mae Aelodau yn hysbysu eu rheolwyr busnes bod rheswm da dros roi ystyriaeth hwy i Orchymyn penodol mewn Pwyllgor Pwnc ac mae'r Dirprwy Lywydd yn gwneud ei benderfyniad ar ôl i'r Pwyllgor Busnes drafod y Gorchymyn. Yng ngoleuni'r ymarfer a ddatblygodd ers 1999, nid oedd unrhyw femorandwm esboniadol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Busnes yn 2001 yn argymell y dylai Pwyllgor Pwnc ystyried unrhyw Orchymyn.

Er hynny, mae mesurau ar y gweill i mi, yn achlysurol, hysbysu Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth o ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ystod y chwe mis nesaf ac sy'n cwympo oddi mewn i'w gylch gorchwyl yn ystod fy adroddiad misol gerbron y Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor nodi'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law y byddai'n hoffi eu hystyried yn fanwl cyn iddynt fynd gerbron y Pwyllgor Busnes.

### Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser mae'r Gweinidog yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15708)

**Sue Essex:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

### Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei adran a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15782) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

### Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae'n gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15783)

**Sue Essex:** Nid yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru nac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi cael trafodion busnes gydag Arthur Andersen ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Gwasanaeth Coetsys Hirbell Traws Cambria

**Elin Jones:** Pa lefel o gymhorthdal cyhoeddus sy'n mynd i mewn i wasanaeth coetsys hirbell Traws Cambria? (WAQ15807) [W]

**Sue Essex:** Busnes masnachol a weithredir gan Arriva Cymru a Stagecoach yw gwasanaeth Traws Cambria ac nid yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Cynulliad na'r awdurdodau lleol.

### Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pam fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gwario £25,000 y flwyddyn ar swyddfa wag ym Mangor? (WAQ15811)

**Sue Essex:** Bu i Gyngor Cefn Gwlad Cymru brydlesu adain o adeilad Maes-y-Ffynnon ym Mhenrhosgarnedd, Bangor ym mis Awst 2001 i wneud lle i staff ychwanegol. Deallaf na chafodd y lle ei lenwi ar unwaith oherwydd ad-drefnu mewnol oddi mewn i'r Cyngor Cefn Gwlad, ond mae'n bwriadu defnyddio'r adeilad i'w eithaf yn ystod y mis nesaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Gorchmynion Drafft y Cynulliad

**David Melding:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, sawl Gorchymyn drafft y Cynulliad yn 2001 gwnaeth y Gweinidog argymell bod y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono yn eu hystyried? (WAQ15669)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ysgrifennaf atoch gyda'r wybodaeth hon yn fuan a rhoddaf gopi o'r llythyr yn y Llyfrgelloedd ym Mharc Cathays ac ym Mae Caerdydd.

### Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser y mae'r Gweinidog yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15706)

**Edwina Hart:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

### Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei adran a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15784)

**Edwina Hart:** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

### Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae'n gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15785)

**Edwina Hart:** Ni chafodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Hysbyseb Swydd am Swyddog Proffesiynol a Thechnegol

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddyfynnu cost hysbyseb swydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am swyddog proffesiynol a thechnegol a ymddangosodd yn *The Western Mail* ar 7 Chwefror 2002? (WAQ15813)

**Edwina Hart:** Cost hysbyseb swydd ddwyieithog yn *The Western Mail* oedd £9,557.10 ynghyd â threth ar werth; credaf fod hyn yn rhy ddrud i hysbysebu un swydd ar y lefel hon.

Mae hysbysebion cyfansawdd sy'n ymddangos yn rheolaidd yn ffordd well o ddefnyddio arian cyhoeddus a hoffwn weld y dull hwn yn cael ei ddefnyddio.

### Model o Siambr ac Ystafell Bwyllgora'r Cynulliad

**Glyn Davies:** Faint gostiodd y gwaith o symud y model o Siambr ac Ystafell Bwyllgora'r Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ15814)

**Edwina Hart:** Roedd y gost o symud y model o'r Siambr a'r Ystafell Bwyllgora yn gynwysedig ym mhris y contract gwreiddiol. Roedd cost symud y model yn oddeutu £2,120 gan gynnwys TAW.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gorchmynion Drafft y Cynulliad

**David Melding:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, sawl Gorchymyn drafft y Cynulliad yn 2001 y gwnaeth y Gweinidog argymell bod y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono yn eu hystyried? (WAQ15666)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.1, caiff Gorchmynion drafft eu cyhoeddi ar y fewnrwyd er mwyn 'gwahodd sylwadau ynghylch a yw'n haeddu cael ei ystyried gan bwyllgor pwnc.' Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i hyn ddigwydd 10 diwrnod cyn iddo bwyso a mesur y Gorchymyn. Tynnir sylw'r aelodau at Orchmynion newydd a gyhoeddir o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1 bob wythnos ac mae ganddynt gyswllt e-bost sy'n eu galluogi i wneud sylwadau o'r fath.

O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, bydd Gweinidog y Cynulliad 'gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd yn argymell a ddylai'r drafft gael ei ystyried neu beidio gan y pwyllgor pwnc'. Yn 2001, ni chafodd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet unrhyw sylwadau, yn sgîl cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1. Yn ymarferol, mae Aelodau yn hysbysu eu rheolwyr busnes bod rheswm da dros roi ystyriaeth hwy i Orchymyn penodol mewn Pwyllgor Pwnc ac mae'r Dirprwy Lywydd yn gwneud ei benderfyniad ar ôl i'r Pwyllgor Busnes drafod y Gorchymyn. Yng ngoleuni'r ymarfer a ddatblygodd ers 1999, nid oedd unrhyw femorandwm esboniadol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Busnes yn 2001 yn argymell y dylai Pwyllgor Pwnc ystyried unrhyw Orchymyn.

Er hynny, mae mesurau ar y gweill i mi, yn achlysurol, hysbysu'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ystod y chwe mis nesaf ac sy'n cwympo oddi mewn i'w gylch gorchwyl yn ystod fy adroddiad misol gerbron y Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor nodi'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law y byddai'n hoffi eu hystyried yn fanwl cyn iddynt fynd gerbron y Pwyllgor Busnes.

### Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'i amser mae'r Gweinidog yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15701)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

## Gwasanaethau Cynghori ym Maes Gofal Sylfaenol

**Jocelyn Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu datblygu gwasanaethau cynghori ym maes gofal sylfaenol? (WAQ15770)

**Jane Hutt:** Mae cynghori yn derm cyffredinol a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth mawr o weithgareddau. Mae ar gleifion angen gwasanaethau cynghori ar faterion sy'n amrywio o hawliau gyda budd-daliadau i broblemau iechyd meddwl ac nid oes modd delio â phob un o'r elfennau ym mhob lleoliad.

Yr allwedd i gyflwyno gwasanaethau cynghori yn llwyddiannus yw cydweithio da rhwng asiantaethau, yn asiantaethau statudol a gwirfoddol. Rhaid i'r GIG ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn agos, a chyda'r sector gwirfoddol, i sicrhau y cyflwynir y gwasanaethau cynghori priodol i'r rheini y mae arnynt eu hangen. Dylai meddygon teulu a phobl broffesiynol eraill yn y maes gofal sylfaenol dynnu sylw'r asiantaethau priodol at angen eu cleifion am wasanaethau cynghori.

## Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei adran a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15786) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

## Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae'n gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15787)

**Jane Hutt:** Ni chafodd Bwrdd Cenedlaethol Cymru ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd na Chyngor Gofal Cymru drafodion busnes gydag Arthur Andersen ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Mewnforion Cig Eidion (Bwyta gan Bobl)

**Peter Rogers:** Yng Nghymru, a ganiateir i gig o wartheg dros 30 mis oed a fewnforiwyd gael ei fwyta gan bobl mewn bwydydd wedi'u prosesu megis pasteiod a phastenni? (WAQ15796) [R]

**Jane Hutt:** Nid yw'r gwaharddiad ar werthu cig eidion o wartheg dros 30 mis oed i gael ei fwyta gan bobl yn berthnasol i gynnyrch cig eidion wedi'i brosesu a gaiff ei fewnforio. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori bod y risg o gynnyrch o'r fath ychydig yn uwch na'r risg o gynnyrch cig eidion a gynhyrchwyd gartref, ond ei fod yn cwympo oddi mewn i ystod derbyniol, yn debyg i'r risg o fwyta cig eidion Prydain bedair blynedd yn ôl, ar ôl cyflwyno camau'r DU i ymladd BSE. Mae asesiad yr Asiantaeth yn pwyso a mesur nifer o ffactorau, gan gynnwys rheoliadau, a roddwyd gan yr UE ar ddeunyddiau sy'n peri risg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i dynnu'r darnau o'r anifail sy'n peri'r risg fwyaf, a bod yn rhaid i anifeiliaid dros 30 mis o'r UE brofi'n negyddol am BSE. Gallai cynnyrch cig eidion o'r DU gynnwys cig eidion dros 30 mis o fuchesi risg isel iawn sy'n perthyn i gynllun sicrwydd cig eidion yn y DU, neu o gig a fewnforiwyd o 14 gwlad nad oes ganddynt unrhyw hanes o BSE.

## Cartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl yn y Sector Annibynnol

**Peter Rogers:** A yw'r Gweinidog wedi asesu beth fydd effaith y ffaith fod cartrefi gofal nyrsio a phreswyl i'r henoed yn y sector annibynnol wedi rhoi rhybudd y byddant yn terfynu eu contractau â'r awdurdodau lleol? (WAQ15801)

**Jane Hutt:** Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, yr wyf yn ceisio gwella ein systemau monitro er mwyn sicrhau y ceir gwybodaeth well a mwy o ymwybyddiaeth o batrymau a thueddiadau darpariaeth gwasanaethau ar draws y sector. Dengys amcangyfrifon diweddar golled net o bron i 1,000 o leoedd mewn cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl rhwng Ionawr a diwedd Rhagfyr 2001 yn erbyn darpariaeth sydd ag oddeutu 27,000 o leoedd drwyddi draw.

Mae'r awdurdodau lleol wrthi'n cyd-drafod lefelau eu ffioedd gyda darparwyr gofal ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a gobeithiaf y gallant ddod i gytundebau na fydd yn amharu ar fywydau preswylwyr. Os bydd yn rhaid cau cartref gofal neu drosglwyddo preswylwyr, dylai'r awdurdod lleol sicrhau y gwneir asesiad llawn o anghenion personol yr holl breswylwyr, gan gynnwys eu gofynion o safbwynt iechyd meddwl a chorfforol, cyn eu lleoli mewn unrhyw fan arall. Os cytunir ar y symud, dylid cynllunio'r broses ei hun yn ofalus er mwyn sicrhau y rhoddir sylw digonol i anghenion pob unigolyn.

## Adroddiadau Asesu Iechyd

**Peter Black:** Pa adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol werthuso adroddiadau asesu iechyd ac a fydd yr adnoddau hynny ar gael ar gyfer y swyddogaeth newydd o ran iechyd y cyhoedd? (WAQ15803)

**Jane Hutt:** Swyddogaeth adrannau iechyd cyhoeddus awdurdodau iechyd yw cloriannau adroddiadau asesu effaith iechyd. Yr ydym wedi sefydlu uned gefnogi newydd i ddatblygu'r arfer o ddefnyddio asesiadau effaith iechyd yng Nghymru. Mae'r uned yn darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth yn ogystal â datblygu offer a methodoleg ymhellach. Mae'r uned ar gael ar hyn o bryd i gefnogi awdurdodau iechyd a bydd ar gael i'r swyddogaeth iechyd cyhoeddus newydd yng Nghymru, ac anogir cysylltiadau gweithio agos rhyngddynt. Bydd sefydlu Canolfan Iechyd Cymru yn cryfhau ymhellach y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer materion iechyd cyhoeddus.

## Bwrdd Iechyd Lleol (Swyddogaeth ar gyfer y Sector Gwirfoddol ac Elusennol)

**Mike German:** Ym mha ffordd y gall y sector gwirfoddol/elusennol gael mynediad ffurfiol at y bwrdd iechyd lleol a'i gylch yn y gymuned leol, a sut y gall gael swyddogaeth o'i fewn? (WAQ15805)

**Jane Hutt:** Bydd aelodaeth pob bwrdd iechyd lleol yn cynnwys dau gynrychiolydd o'r sector gwirfoddol. Hefyd, er mwyn sicrhau y gall y sector gwirfoddol a'r gwasanaeth iechyd sicrhau'r synergedd a chwenychir o'u partneriaeth, yr wyf wedi sefydlu prosiect arbennig i adolygu'r sefyllfa bresennol a chanfod cyfleoedd i gryfhau rôl y sector gwirfoddol i gefnogi iechyd a lles. Cynhelir y prosiect gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r grwpiau sy'n aelod ohono.

## Fframwaith y Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaeth ar gyfer y Sector Gwirfoddol ac Elusennol)

**Mike German:** Pa swyddogaeth sydd i'r sector gwirfoddol/elusennol yn fframwaith y byrddau iechyd lleol newydd? (WAQ15806)

**Jane Hutt:** Bydd y sector gwirfoddol yn bartner allweddol a fydd yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i helpu paratoi a sicrhau gwelliannau i iechyd a lles pobl.

Bydd gan bob bwrdd iechyd lleol ddau gynrychiolydd o'r sector gwirfoddol. Wrth gyflawni ei ddyletswydd statudol i lunio a gweithredu strategaeth ar y cyd ar gyfer iechyd a lles gyda'r awdurdod

lleol, disgwylir i bob bwrdd iechyd lleol wneud hynny mewn cydweithrediad â'r sector gwirfoddol a buddiannau cyfranogion eraill.

Yna, bydd byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod trefniadau comisiynu cyfunol, ac integredig pryd bynnag y bo hynny'n bosib, ar waith i gyflwyno'r strategaeth iechyd a lles honno.

**Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig ag Oedran**

**Kirsty Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer y rheini sy'n dioddef o ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran? (WAQ15809)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw driniaeth hysbys ar gyfer dirywiad macwlaidd 'sych' sy'n gysylltiedig ag oedran, a dyna 80 i 85 y cant o'r holl gyflyrau macwlaidd. Er hynny, mae math newydd o driniaeth ar gael ar gyfer cyflyrau macwlaidd 'gwlyb' drwy ddull a elwir yn therapi ffotodeinameg sy'n defnyddio'r cyffur visudyne.

Gwelodd y Cynulliad bwysigrwydd posibl y driniaeth hon, a chyda'r Adran Iechyd, bu iddo gomisiynu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol i baratoi arweiniad i'r GIG yng Nghymru a Lloegr ar ba mor effeithiol yw'r therapi hwn yn glinigol ac o safbwynt cost. Disgwylir cyhoeddi'r arweiniad hwnnw yn ddiweddarach yr haf hwn.

Mater i'r awdurdodau iechyd yw darparu'r gwasanaeth hwn i gleifion yng Nghymru a, hyd nes y bydd yr arweiniad gan NICE, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ar gael, maent yn cyfeirio cleifion yng Nghymru y credir eu bod yn addas ar gyfer y math hwn o driniaeth i Ysbyty Brenhinol Prifysgol Lerpwl, sef un o ddwy ganolfan yn y DU sy'n ymwneud â threialon rheoledig gyda'r driniaeth hon. Unwaith y bydd arweiniad NICE ar gael, deallaf y bydd awdurdodau iechyd yn ystyried a yw'r math hwn o driniaeth yn addas i'w ddarparu yn lleol.

**Llawdriniaethau ar Gluniau a Phengliniau**

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid yn nifer y llawdriniaethau ar gluniau a phengliniau a wnaethpwyd gan y GIG yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf, fel ffigur cyfanswm ac fel canran? (WAQ15818)

**Jane Hutt:** Yn 2000-01, cofnodwyd 5,770 o drigolion Cymru ar y gronfa ddata cleifion yng Nghymru fel rhai a gafodd glun neu ben-glin newydd neu hemiarthroplasteg ar ben uchaf asgwrn y glun o gymharu â 5,109 ym 1999-00: cynnydd o 661 (2.9 y cant). Yn y cyfnod rhwng Ebrill 2001 a Hydref 2001 (y cyfnod diweddaraf yn y flwyddyn ariannol hon y mae gennym ddata lefelau triniaeth dibynadwy ar ei gyfer), cafodd 3,461 o drigolion Cymru'r llawdriniaethau hyn o gymharu â 3,420 yn ystod yr un cyfnod yn 2000: cynnydd o 41 (1.2 y cant). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw waith a ariannwyd gan y GIG ond a wnaethpwyd yn y sector preifat ac nas cofnodwyd ar y gronfa ddata cleifion.

**Nifer y Llawdriniaethau Cataract a wnaethpwyd gan y GIG**

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid yn nifer y llawdriniaethau cataract a wnaethpwyd gan y GIG yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf, fel ffigur cyfanswm ac fel canran? (WAQ15820)

**Jane Hutt:** Yn 2000-01, cofnodwyd 18,735 o drigolion Cymru ar gronfa ddata cleifion yng Nghymru fel rhai a gafodd lawdriniaeth i dynnu cataract (gyda neu heb blaniadau) o gymharu â 14,238 yn 1999-2000: cynnydd o 4,497 (31.6 y cant). Yn y cyfnod rhwng Ebrill 2001 a Hydref 2001 (y cyfnod diweddaraf yn y flwyddyn ariannol hon y mae gennym ddata lefelau triniaeth dibynadwy ar ei gyfer), cafodd 10,733 o drigolion Cymru'r llawdriniaethau hyn o gymharu â 10,368 yn ystod yr un cyfnod yn 2000: cynnydd o 365 (3.5 y cant). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw waith a ariannwyd gan y GIG ond a wnaethpwyd yn y sector preifat ac nas cofnodwyd ar y gronfa ddata cleifion.

### Cyfraddau Goroesi Cleifion â Chanser

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid yng nghyfraddau'r cleifion â chanser a oroesodd yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf, fel ffigur cyfanswm ac fel canran? (WAQ15821)

**Jane Hutt:** Cesglir cyfraddau'r cleifion â chanser sy'n goroesi yng Nghymru gan Uned Arolygiaeth a Gwybodaeth Cancr Cymru. Cynhwysir y ffigurau diweddaraf yn ei chyhoeddiad '*Cancer Registration and Survival in Wales 1985-1994*', mae copi ohono ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad. Caiff y ffigurau diweddaraf am gleifion sy'n goroesi ar ôl canser, ar gyfer y cyfnod hyd at 1996, eu cyhoeddi gan yr uned yn ddiweddarach eleni. Rhoddir copi o'r cyhoeddiad hwn yn y Llyfrgell hefyd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Gorchmynion Drafft y Cynulliad

**David Melding:** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, sawl Gorchymyn drafft y Cynulliad yn 2001 a wnaeth y Gweinidog argymell bod y Pwyllgor Pwnc y mae'r Gweinidog yn aelod ohono yn eu hystyried? (WAQ15670)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** O dan Reol Sefydlog Rhif 22.1, caiff Gorchmynion drafft eu cyhoeddi ar y fewnrwyd er mwyn 'gwahodd sylwadau ynghylch a yw'n haeddu cael ei ystyried gan bwyllgorau pwnc'. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i hyn ddigwydd 10 diwrnod cyn iddo bwyso a mesur y Gorchymyn. Tynnir sylw'r aelodau at Orchmynion newydd a gyhoeddir o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1 bob wythnos ac mae ganddynt gyswllt e-bost sy'n eu galluogi i wneud sylwadau o'r fath.

O dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, bydd Gweinidog y Cynulliad 'gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd yn argymell a ddylai'r drafft gael ei ystyried neu beidio gan y pwyllgor pwnc'. Yn 2001, ni dderbyniodd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet unrhyw sylwadau yn sgîl cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog Rhif 22.1. Yn ymarferol, mae'r Aelodau yn hysbysu eu rheolwyr busnes bod rheswm da dros roi ystyriaeth hwy i Orchymyn penodol mewn Pwyllgor Pwnc ac mae'r Dirprwy Lywydd yn gwneud ei benderfyniad wedi i'r Pwyllgor Busnes drafod y Gorchymyn. Yng ngoleuni'r ymarfer a ddatblygodd ers 1999, nid oedd unrhyw femorandwm esboniadol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Busnes yn 2001 yn argymell y dylai Pwyllgor Pwnc ystyried unrhyw Orchymyn.

Er hynny, yr wyf yn hysbysu'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law sy'n cwympo oddi mewn i'w gylch gorchwyl yn ystod fy adroddiad misol i'r Pwyllgor. Rhydd hyn gyfle i'r Pwyllgor nodi'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law y byddai'n hoffi eu hystyried yn fanwl cyn iddynt fynd gerbron y Pwyllgor Busnes.

### Amser a Dreulir ar Faterion Gweinidogol

**Alun Cairns;** Pa gyfran o'i amser mae'r Gweinidog yn ei dreulio yn delio â materion gweinidogol? (WAQ15703)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch wedi'i dal yn ganolog.

### Cysylltiadau gyda Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng ei adran a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15788) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran y Cabinet.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ni chafodd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw drafodion busnes gydag Arthur Andersen nac Accenture, ei gyswllt ymgynghori.

### Cysylltiadau rhwng CCNCau a Grŵp Cwmnïau Arthur Andersen

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodion neu gysylltiadau busnes, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, rhwng y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad y mae ef yn gyfrifol amdanynt, a grŵp cwmnïau Arthur Andersen, neu ei olynwyr, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15789)

**Carwyn Jones:** Ysgrifennaf atoch yn fuan a rhoddaf gopi o'r ateb yn y Llyfrgell.

### Tir Gofal

**Peter Rogers:** Faint o'r 1,100 o geisiadau Tir Gofal sydd wedi'u prosesu ac sydd wedi cael ymweliad gan swyddogion prosiect? (WAQ15810)

**Carwyn Jones:** Dechreuodd y gwaith o brosesu'r 1,205 o geisiadau Tir Gofal a gafwyd yn ystod y rownd ddiwethaf cyn gynted ag y caeodd y cyfnod ymgeisio ar 31 Awst 2001. O ganlyniad, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi penderfynu bod 1,100 o ffermydd yn gymwys i gael eu cloriannu gan swyddog prosiect. Er hynny, ni ymwelir â'r ffermydd hyn nes y cwblheir y cytundebau sy'n weddill o'r ceisiadau cymwys a gafwyd o'r ddwy rownd ddiwethaf. Y rheswm am yr oedi yw oherwydd i'r gwaith o brosesu cytundebau yn 2001 gael ei rwystro gan glwy'r traed a'r genau, oherwydd y bu'n rhaid rhwystro swyddogion prosiect rhag ymweld â ffermydd rhwng Chwefror ac Awst.

### Cynllun wrth Gefn ar gyfer Clwy'r Traed a'r Genau

**Glyn Davies:** Yn dilyn yr ateb i WAQ15603, ble y gallaf ddarllen cynnwys y cynllun wrth gefn? (WAQ15812)

**Carwyn Jones:** Dogfen gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r cynllun wrth gefn ac nid yw ar gael i'r cyhoedd; mae'n cynnwys deunydd masnachol gyfrinachol. Byddai'n rhaid cyflwyno unrhyw gais i ddarllen y ddogfen drwy DEFRA.

### Ffermydd a oedd wedi'u Pennu fel 'Safleoedd Heintiedig'

**Glyn Davies:** Beth oedd targedau'r Llywodraeth o ran yr amser a gymerwyd i ladd a gwaredu gwartheg, defaid a geifr o ffermydd a oedd wedi'u pennu fel 'safleoedd heintiedig' yn ystod epidemig clwy'r traed a'r genau yng Nghymru yn 2001? (WAQ15815)

**Carwyn Jones:** Targedau Llywodraeth y DU: 24 awr rhwng adrodd am achosion a lladd y da byw. Nid oedd unrhyw dargedau ar gyfer eu symud/eu gwaredu.

### Ffermydd Cyfagos i 'Safleoedd Heintiedig' Clwy'r Traed a'r Genau

**Glyn Davies:** Beth oedd targedau'r Llywodraeth o ran yr amser a gymerwyd i ladd a gwaredu da byw o ffermydd ar y sail eu bod yn agos at 'safleoedd heintiedig' clwy'r traed a'r genau yng Nghymru yn 2001? (WAQ15816)

**Carwyn Jones:** Targed Llywodraeth y DU ar gyfer lladd y da byw ar safleoedd heintiedig oedd 48 awr wedi adrodd yr achosion. Nid oedd unrhyw dargedau ar gyfer eu symud/eu gwaredu.

## Nifer y Ffermydd ar Ynys Môn a Heintiwyd gan Glwy’r Traed a’r Genau

**Peter Rogers:** Sawl fferm ar Ynys Môn a heintiwyd gan glwy’r traed a’r genau yn ystod yr argyfwng diweddar? (WAQ15825)

**Carwyn Jones:** 13.

## Nifer y Ffermydd Lle Lladdwyd Da Byw

**Peter Rogers:** Ar sawl fferm yng Nghymru y lladdwyd da byw yn ystod argyfwng diweddar clwy’r traed a’r genau? (WAQ15826)

**Carwyn Jones:** Lladdwyd da byw oherwydd clwy’r traed a’r genau yn 803 o ddaliadau yng Nghymru.